Rydym wedi penderfynu mai gwneud AGGCC yn atebol yw'r defnydd mwyaf effeithiol o ymgysylltu â'r cyhoedd, gan ein helpu i ffurfio ein blaenoriaethau a'n dulliau o weithredu. Nid ydym yn credu bod defnyddio'r cyhoedd mewn arolygiadau fel mater o drefn yn effeithiol o ran cost (nid oes gennym yr adnoddau i wneud hyn), ac mae ein hadborth o gynlluniau blaenorol, a chynlluniau cyfredol eraill, yn dangos nad yw bobl sy'n cymryd rhan mewn arolygiadau yn rheolaidd yn parhau i fod yn bobl "lleyg" yn hir. Yn hytrach na mynd ar ôl y defnydd rheolaidd o arolygwyr lleyg, credwn y dylwn fanteisio i'r eithaf ar ymgysylltu â'r cymunedau naturiol o gwmpas gwasanaethau wrth gynnal arolygiadau, ac ar yr adborth a geir ganddynt. Rydym yn annog pobl i fod yn wylidwrus ar ein rhan, ac i dynnu ein sylw at bryderon (yn 2014/15, gwnaethom dderbyn 2,170 o bryderon gan breswylwyr, perthnasau, staff, a gweithwyr proffesiynol). Rydym wedi bod yn datblygu atebion sy'n defnyddio'r we a'r cyfryngau cymdeithasol gyda rhywfaint o lwyddiant - ac yn parhau i wneud felly.

Rydym wedi bod yn defnyddio dinasyddion lleyg mewn modd wedi'i dargedu, yn hytrach na'u defnyddio fel mater o drefn, er mwyn dod ag agwedd y dinesydd at ein hastudiaethau themataidd, gan adael i'w profiad ffurfio ein dull o weithredu a'r ffordd rydym yn casglu

tystiolaeth, yn rhoi adborth ac yn gwerthuso canlyniadau. Mae hyn yn cynnwys Voices from Care a Sense Cymru. Yn yr un modd, byddwn yn ymgysylltu â Phobl yn Gyntaf Cymru a Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan yn ystod ein harolygiadau themataidd o wasanaethau anabledd dysgu, sydd ar y gweill.

Cyflwyno graddfeydd

Mae AGGCC yn credu'n gryf y bydd y defnydd o raddfeydd yn hanfodol yn y dyfodol wrth yrru gwelliant a draws gwasanaethau a reoleiddir a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol - yn enwedig yn eu rôl fel comisiynwyr cyfrifol er mwyn sicrhau gofal sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Yn wir, yn ei adolygiad o gartrefi gofal, mae John Kennedy yn argymhell y dylai llywodraethau "reoleiddio'r farchnad er mwyn cystadlu ar ansawdd". Mae fframwaith graddio cenedlaethol yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn. Mae angen gwybodaeth glir ar y cyhoedd ynglŷn ag ansawdd y gofal a gynigir ar draws y gwahanol leoliadau,¹³ fel y dengys y cynnydd mewn mynediad i gyfeirlyfr gwasanaethau AGGCC (dros 31,968 o ymweliadau yn 2014/15¹⁴). Oherwydd diffyg graddfeydd, rydym wedi symleiddio ein hadroddiadau arolygu er mwyn rhoi gwybodaeth glir i'r cyhoedd ynglŷn â'n dyfarniadau ar wasanaethau, ac rydym wedi cynnwys gwybodaeth am feysydd lle mae'r gwasanaeth yn methu a heb gydymffurfio â'r gyfraith. Mae AGGCC yn cydnabod buddion a heriau cyflwyno graddfeydd, fel y nodwyd yn y gwerthusiad o'n cynlluniau peilot cynnar mewn gofal plant.

Rydym hefyd yn cydnabod y posibilrwydd o ddefnyddio graddfeydd er mwyn nodi tueddiadau dros amser, ac i nodi perfformiad darparwyr dros nifer o leoliadau yn ogystal â pherfformiad comisiynwyr, trwy goladu a chymharu graddfeydd yn ôl ardal.

Ar hyd y bryd, rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a'r sector gofal a reoleiddir i ddatblygu fframwaith arolygu newydd, sy'n cyd-fynd â chanlyniadau lles o dan Ddeddf 2014. Mae pobl yn teimlo'n gadarnhaol ynglŷn â'r dull hwn, a bydd gwaith cynnar yn cynnwys arbrofi ar gysyniadau ar gyfer unrhyw system o raddfeydd yn y dyfodol.

Pwerau gorfodi cryfach

Mae AGGCC yn croesawu'r ddarpariaeth yn y Bil. Yn benodol, rydym yn credu y bydd y gallu i gyflwyno hysbysiadau gwella yn datrys y problemau presennol a wynebier oherwydd amserlenni anniffiniedig, ac sydd yn aml yn estynedig, wrth gymryd camau gorfodi sifil. Mae hysbysiadau gwella'n cynnig ateb targedig ac iddo derfyn amser, sy'n canolbwyntio ar sicrhau gwelliant yn y lle cyntaf, ac o'r herwydd yn llai tebygol o achosi pryder ar gyfer y rhai sy'n defnyddio neu sy'n gweithio yn y gwasanaethau - o gymharu â'r drefn bresennol, sy'n dechrau â hysbysiad sy'n cynnig canslo cofrestrriad y gwasanaeth.

¹³ Ymwelwyd â'r tudalen "[dod o hyd i wasanaeth](#)", lle mae pobl yn gallu chwilio am wasanaeth, 31,968 o weithiau.

¹⁴ Yn 2014/15, cafodd gwefan AGGCC gyfanswm o 672,617 o ymweliadau tudalen unigryw.*

Y pŵer i godi ffioedd

Byddwn y cefnogi cadw'r pŵer i gyflwyno ffioedd yn y Bil, yn ogystal â system o gyflwyno ffioedd yn raddol er mwyn i ddarparwyr gyfrannu at y costau. Rydym yn cydnabod y bydd yn rhaid i'r model ariannol fod yn deg ac yn hyblyg er mwyn i ffioedd adlewyrchu cost y gwasanaethau ac er mwyn i gymorthdaliadau gael eu defnyddio i roi cymorth i'r rhai sydd eu hangen. Fodd bynnag, rydym yn gweld yn y tymor canol a'r tymor hir y gallai ffioedd fod yn sbardun i gryfhau cyfrifoldebau darparwyr a chomisiynwyr fel ei gilydd, er mwyn iddynt hwyluso'r farchnad leol a gyrru gwelliannau ym maes gofal. Er enghraifft, darparwyr sydd ag angen ymyrraeth AGGCC yn barhaus er mwyn iddynt wneud gwelliannau cyson yn sgil arolygiad gwael neu bryderon a leisiwyd gan y cyhoedd trwy linell gymorth AGGCC (dros 2,170 yn 2014/15). Rydym yn credu bod amgylchiadau lle y dylai'r darparwr dalu am y defnydd cymesur o ffioedd, er enghraifft, i'w osod yn erbyn y gost i AGGCC am ymweliadau ychwanegol i'r lleoliad sy'n gysylltiedig â'n gweithgarwch gorfodi ac ail-arolygu.

Mae AGGCC yn gryf o'r farn y dylai cymhorthdal Llywodraeth Cymru ar gyfer tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y gwiriadau manylach cofnodion troseddol gynt, sydd eu hangen wrth gofrestru ac ar adegau adnewyddu, ddod i ben. Dylai cofrestru gyda gwasanaeth diweddar ar-lein Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y DU gael ei ddefnyddio fel y mecanwaith i roi tystiolaeth i'r rheoleiddiwr o gymhwysedd pobl i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed. Rydym eisoes yn cymryd camau i dynnu ein cymhorthdal ar gyfer cofrestru gofal plant. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru am estyn rheoleiddio gofal plant yn dangos ein bwriadau yn hyn o beth.

7. Beth yw'ch barn ar y ddarpariaeth yn rhan 1 o'r Bil ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol? Er enghraifft, ystyried canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth mewn adolygiadau o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol, cynnwys y cyhoedd yn fwy, a dyletswydd newydd i adrodd ar farchnadoedd lleol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Trafodir uchod pwysigrwydd dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn galluogi pobl i gyflawni lles ar draws gwasanaethau cymdeithasol o dan ddyletswydd awdurdodau lleol, a'r rhai sy'n cael eu rheoleiddio. Mae darparu gofal o ansawdd da yn dibynnu ar nifer o swyddogaethau sy'n dibynnu'n drwm ar ei gilydd. Gyda'i gilydd, bydd y Bil a Deddf 2014 yn rhoi cydlyniad wrth asesu perfformiad swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, wrth asesu, cynllunio gofal, comisiynu, ac wedyn goruchwylio a chyflenwi gofal a reolir. Mae ystod ehangach o arolygiadau, ymyriadau ac adolygiadau AGGCC o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn gadarnhaol, a bydd yn helpu AGGCC i ganolbwyntio ei gwaith ar agweddau penodol ar o leiaf un swyddogaeth awdurdodau lleol.

Mae AGGCC yn credu y bydd awdurdodau lleol yn cael paratoi adroddiadau am sefydlogrwydd y farchnad yn heriol. Yn ein hadolygiad cenedlaethol 2014¹⁵ o gomisiynu awdurdodau lleol yng Nghymru, cawsom fod angen ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd wneud newidiadau mawr i'r ffordd y maent yn cynllunio a chomisiynu gwasanaethau i bobl

¹⁵Adolygiad Cenedlaethol o Gomisiynu AGGCC – <http://cssiw.org.uk/our-reports/national-thematic-report/2014/review-of-commissioning-for-social-care-13-14/2skip=1&lang=cy>

sydd â dementia. Mae Adroddiad Blynyddol 2014 AGGCC yn trafod yr heriau mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth iddynt gomisiynu gwasanaethau i blant ac i oedolion fel ei gilydd.

Croesawir y cynigion y dylid rhoi adroddiadau blynyddol y cyfarwyddwyr ac adroddiadau AGGCC ar eu harolygiadau o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd hyn yn sicrhau tryloywder a chraffu ar berfformiad awdurdodau lleol ar lefel leol a lefel genedlaethol. Mae cyfle i gysylltu â'r cynigion ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru – Grym i Bobl Leol, a byddai'n gofyn i'r pedwar prif gyrff archwilio, rheoleiddio ac arolygu yng Nghymru "gynhyrchu cydasesiad blynyddol o gyflwr llywodraeth leol yng Nghymru".¹⁶

Mae'n bwysig bod y cynhyrchiad o nifer o adroddiadau ac asesiadau o berfformiad awdurdodau lleol sydd ei angen yn y Bil hwn a statudau eraill yn hyblyg ac yn gymesur er mwyn osgoi dyblygu. Mae'n bwysig hefyd y gall awdurdodau lleol ymateb i, ac adrodd ar, amcanion a bennir ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol, nad ydynt yn tynnu sylw oddi ar y prif ffocws o gyflenwi gofal a chanlyniadau da i bobl.

8. Beth yw'ch barn ar y ddarpariaeth yn Rhan 1 o'r Bil ar gyfer datblygu trosolwg o farchnad y sector gofal cymdeithasol? Er enghraifft, asesu cynaliadwyedd ariannol a chorfforaethol darparwyr gwasanaethau a darparu adroddiad cenedlaethol ar gynaliadwyedd y farchnad.

Rydym yn credu bod llawer i'w ennill trwy ddatblygu dull o weithredu sy'n ystyried trosolwg o'r farchnad. Mae potensial enfawr ar gyfer gwneud gwell defnydd o'r wybodaeth bresennol a gedwir gan y rheoleiddiwr a'r comisiynwyr, ac estyn ystod y wybodaeth sy'n cael ei chasglu. Byddai hyn yn cryfhau gwybodaeth am y farchnad, ac yn cryfhau'r ffordd mae'r farchnad yn cael ei ffurfio - yn ogystal â helpu awdurdodau cyhoeddus i asesu ac i ragweld y risg botensial o fethiant mewn gwasanaethau. Mae gan fas data newydd AGGCC y potensial i wneud cyfraniad sylweddol yn y maes hwn, yn enwedig unwaith mae cofrestrriad sy'n seiliedig ar wasanaeth wedi'i gyflwyno. Byddwn yn gallu casglu a dadansoddi adroddiadau sylfaenol gan ddarparwyr fel rhan o'u hadrodd blynyddol.

Hoffem, fodd bynnag, gynnig gair i'r call. Nid ydym yn gallu cynnig sicrwydd llwyr na gweld yr anhysbys. Rydym yn gwybod trwy ein sgysiau â'r Comisiwn Ansawdd Gofal am gymhlethdod gwneud y fath drefniadau, y mater o sensitifrwydd masnachol, a'r costau sylweddol iawn o osod systemau diogel a chyflogi arbenigwyr ariannol sydd â sgiliau cyfrifyddu fforensig a dadansoddol. Rydym yn nodi bod y Comisiwn Ansawdd Gofal (ym mis Ebrill 2015)¹⁷ wedi sefydlu cynllun yn unol â'r gofynion cyfreithiol newydd, a bydd llwyddiant y cynllun hwn yn cael ei werthuso. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn canolbwyntio dim ond ar yr ychydig o ddarparwyr mawr a fyddai'n anodd cymryd eu lle (e.e. mwy na 2,000 o breswylwyr mewn cartrefi gofal). Mae'r farchnad gofal yng Nghymru yn lled wahanol. Mae ein cofrestr ni yn dangos bod 70% o ddarparwyr yn rhedeg un sefydliad yn unig, a dim ond 2%¹⁸ yn rhedeg 10 neu fwy. Yn ymgynghoriad y Comisiwn Ansawdd

¹⁶Tudalen 75, Adran 8 – Papur Gwyn Llywodraeth Cymru – Grym i Bobl Leol.

¹⁷Trosolwg CWQC o Farchnad Gofal Cymdeithasol <http://www.cqc.org.uk/our-new-role-market-oversight-care-homes-and-other-social-care-services>

¹⁸Cofrestr CSSIW 2014/15

Gofal am y trefniadau, dywedodd darparwyr am y baich a'r anawsterau ynglŷn â rhoi'r wybodaeth ariannol sydd ei hangen. Roedd awdurdodau lleol yn poeni am effaith methiant darparwyr llai, cymaint ag yr oeddent yn poeni am fethiant cwmnïau mwy - byddai'r sefyllfa yng Nghymru yn debyg. Mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal wedi rhoi llwybr ar waith i ymateb i'r risg gynyddol sy'n cynnwys awdurdodau lleol yn y camau terfynol. Yng Nghymru, mae gennym ddull llawer mwy ymatebol, sydd fel arfer yn cael ei yrru trwy broses pryderon cynyddol, sy'n cael ei defnyddio pan fydd gwasanaethau'n debygol o fethu.

Mae gan unrhyw gynllun i gael trosolwg o'r farchnad nifer o broblemau technegol. Mae diffyg defnyddioldeb i adroddiadau ariannol a chofnodion cwmnïau, a gallant fod wedi dod i ben hyd at ddwy flynedd gynt. Yn ogystal, gall data cyfrifyddu cyfredol lleol fod yn anghywir, yn anghyflawn, ac yn anodd eu dehongli neu'n cael mynediad atynt. Gwnaethom ddysgu gan Southern Cross, tra bod gwasanaethau unigol yn ymddangos fel pe baent yn gwneud elw, mae'r dyledion a'r risgiau'n gallu dibynnu ar ffactorau sy'n bell i ffwrdd o gwmnïau gofal cymdeithasol, ac yn aml maent wedi eu lleoli dramor. Ar hyn o bryd, mae'r farchnad gofal cartref mewn sefyllfa lle mae cwmnïau wastad yn cydsoddi ac yn newid perchnogaeth, weithiau gyda strwythurau dyled cymhleth - y tu ôl i'r llen a heb effeithio ar y cofrestriad. Rydym wedi bod yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill sy'n gweithredu ar draws y DU ar hyn - yn benodol y Comisiwn Ansawdd Gofal - er mwyn cadw llygad ar ddarparwyr mawr sy'n gweithredu ar draws y DU.

Gyda'r rhwystrau hyn, a chyda rhywfaint o gapasiti gwell, gallai AGGCC baratoi proffiliau syml o drosolwg cyffredinol a thueddiadau'r farchnad Dylem allu nodi'r risgiau hysbys a mesuradwy, fel gwasanaethau sydd yn nwylo gweinyddwyr, neu lle mae dangosyddion ariannol negyddol (e.e. diffyg gwariant ar adeiladau ac atgyweiriadau), neu lle mae pryderon wedi'u lleisio ynglŷn â biliau heb eu talu neu ostyngiadau mewn costau, ansawdd bwyd, neu lefelau staffio. Fodd bynnag, ni fyddem yn gallu casglu na dadansoddi data ariannol mwy soffistigedig a dangosyddion marchnata fel y bwriedir erbyn hyn yn Lloegr.

9. *Beth yw'ch barn ar y ddarpariaeth yn Rhan 3 o'r Bil ar gyfer ailenwi ac ailgyfansoddi Cyngor Gofal Cymru yn Gofal Cymdeithasol Cymru ac estyn ei gylch gwaith?*

Nid oes gennym farn gadarn ar yr enw newydd am Gyngor Gofal Cymru, ond nid yw'r teitl yn cydnabod ei rôl o gefnogi ac adeiladu capasiti yn safonau'r gweithlu a chymwysterau ar gyfer y sector gofal plant ehangach yng Nghymru, gan gynnwys yr hyn a adwaenir fel darpariaeth y blynyddoedd cynnar. Rydym yn deall bod hyn yn faes sydd o bwysigrwydd cynyddol i'r Cyngor, yng ngoleuni ymroddiad y Llywodraeth i gynllun deg mlynedd ar gyfer datblygu gweithlu'r sector. Felly mae'n bleser gan AGGCC weld y pwerau rheoleiddio eang ar gyfer estyn categorïau gweithwyr cymdeithasol (cyfeiriad Adran 78(2)) gan gynnwys gwasanaethau gwarchod plant a gwasanaethau gofal dydd.

O ran cylch gwaith estynedig Cyngor Gofal Cymru, rydym yn nodi'r swyddogaeth wella yn Adran 68 - y pŵer i ddarparu cyngor a chymorth (gan gynnwys grantiau) ar gyfer unrhyw berson sy'n darparu gwasanaeth gofal a chymorth. Bydd angen egluro sut y bydd y rôl hon yn cael ei gweithredu, a sefydlu protocolau i sicrhau bod rheoleiddiad gwasanaethau, a swyddogaethau Gofal Cymdeithasol Cymru, yn gyflenwol, ac nad ydynt yn gwrthdaro.

10. Beth yw'ch barn ar y ddarpariaeth yn rhannau 4-8 o'r Bil ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu? Er enghraifft, y cynigion i beidio ag estyn cofrestru i gategoriâu newydd o staff, i dynnu cofrestriad gwirfoddol, ac i gyflwyno gorchmynion gwahardd.

Mae'n bleser gennym weld y bydd y pwerau rheoleiddio yn galluogi estyn cofrestriad y gweithlu. Rydym hefyd yn cefnogi ehangu'r rhestr o arolygwyr yn Adran 78 o'r Bil er mwyn cynnwys y mwyafrif o feysydd gwasanaethau mae AGGCC yn eu harolygu ar hyn o bryd. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Gofal Cymru i ddatblygu fframwaith newydd o gymwysterau ar gyfer arolygwyr AGGCC, ac rydym yn credu y bydd mynnu bod gan arolygwyr y cymhwyster newydd hwn gydag amser yn gwella rôl, statws a sgiliau'r arolygwyr. Bydd hefyd yn darparu llwybr gyrfa broffesiynol a fydd yn denu gweithwyr proffesiynol o safon uchel mewn gofal cymdeithasol, gofal plant a nyrsio i fod yn arolygwyr, ac yn ymochri trefniadau ag Estyn, sy'n gweithredu rhestr o arolygwyr ar gyfer ysgolion.

11. Beth yw'ch barn ar y ddarpariaeth yn Rhan 9 o'r Bil ar gyfer cydweithredu a chydweithio rhwng cyrff rheoleiddio?

Ar hyn o bryd, mae AGGCC yn rhannu gwybodaeth ac yn cydweithio â rheoleiddiwr y gweithlu, Cyngor Gofal Cymru, a nifer o gyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio yng Nghymru ac ar draws y DU, yn ogystal ag awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, yn enwedig mewn perthynas ag amddiffyn pobl. Fodd bynnag, croesawir cynnwys dyletswyddau cyffredinol a phenodol ar wyneb y Bil mewn perthynas â chydweithrediad rhwng y gwasanaethau, rheoleiddiwr y gweithlu, a'r cyrff cyhoeddus perthnasol. Mae hyn yn nodi ac yn hyrwyddo pwysigrwydd trefniadau cilyddol rhwng pob parti er mwyn rhannu gwybodaeth, a lle bo'n berthnasol, gweithredu ar y cyd ar draws yr holl system er mwyn gwella lles pobl.

Bydd rhannu tystiolaeth er mwyn cyflawni amcanion y Bil yn galluogi'r gwasanaeth a rheoleiddiwr y gweithlu i wella a mynd i'r afael ar y cyd â pherfformiad gwael neu fethiannau rheoli gan unigolyn cyfrifol gwasanaeth. Gallai dirprwyo swyddogaethau rhwng AGGCC a rheoleiddiwr y gweithlu fod yn helpus mewn rhai amgylchiadau - ond mae angen gweithredu hwn yn ymarferol.

12. Yn eich barn chi, a oes yn y Bil gydbwysedd rhesymol rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn sy'n dod o dan is-ddeddfwriaeth a chanllawiau?

Ydym, ond rydym yn nodi bod cryn dipyn mwy o argymhelliad ar wyneb y Bil. Gall hyn fod yn gadarnhaol, ond gallai arwain ar rwystrau potensial, o fwriad neu fel arall, os defnyddir dull tebyg o weithredu wrth ddatblygu rheoliadau a chodau ymarfer. O safbwynt rheoleiddiwr gwasanaeth, rydym yn credu ei bod yn rhaid i'r gyfraith a systemau fod yn ddigon hyblyg er mwyn ein galluogi i wella ein perfformiad yn barhaus, a pherfformiad y rhai rydym yn eu harolygu, trwy adolygu ac addasu ein dulliau o arolygu'n rheolaidd, er mwyn wynebu patrymau newidiol o ofal a'r arferion gorau. Er enghraifft, rheoliadau sydd i'w cynnwys yn Adran 35 mewn perthynas â'r meini prawf sydd i'w defnyddio wrth i AGGCC raddio gwasanaethau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd y sbectrwm eang o bwerau yn y Bil, ynghyd â'r rhai sydd yn Neddf 2014, yn amddiffyn y system rhag y dyfodol trwy is-ddeddfwriaeth, a chefnogi craffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y rheoliadau allweddol trwy weithredu'n gadarnhaol.

13. Beth yw'ch barn ar oblygiadau ariannol y Bil fel y ceir yn rhannau 6 a 7 o'r Memorandwm Esboniadol?

Mae AGGCC wedi rhoi costau dangosol i Lywodraeth Cymru er mwyn llywio'r goblygiadau ariannol fel y ceir yn Nodiadau Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil. Bydd costau'n amrywio, yn dibynnu ar drefniadau manwl y system, a fydd yn cael eu heffeithio gan reoliadau, codau ymarfer, a pholisïau a chanllawiau gweithredu AGGCC ei hun. Byddwn yn gweithio'n agos iawn gyda Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r rhain er mwyn sicrhau cymesuredd ac effeithlonrwydd.

Mae costau sylweddol ac anochel yn perthyn i gyfnod o drawsnewidiad. Hoffai AGGCC bwysleisio i'r Pwyllgor bwysigrwydd trefniadau trawsnewid cadarn ar gyfer cyn-gofrestriad y garfan bresennol o ddarparwyr o dan y rheolau newydd, er mwyn sicrhau cywirdeb a chyfanrwydd cofrestr o ddarparwyr rheoleiddiwr y gwasanaeth, ac i sicrhau gweinyddu effeithiol y gyfundrefn newydd ar gyfer rheoleiddio ac arolygu. Roedd y problemau a darddodd o'r trawsnewidiad yn 2002 pan ddaeth y Ddeddf Safonau Gofal i rym, i raddau yn cael eu hadlewyrchu gan rhai o'r problemau a ddaeth i'r amlwg yn Operation Jasmine. Yn fwy diweddar, rydym wedi gweld effaith trawsnewidiad yn Lloegr, pan sefydlwyd y Comisiwn Ansawdd Gofal a symudodd y ffocws o gynnal arolygiadau o ddydd i ddydd i gyflawni trosglwyddo cofrestriad a chofrestru gwasanaethau newydd.

AGGCC hefyd yw'r rheoleiddiwr ar gyfer gofal plant,¹⁹ sydd hefyd yn destun ar gyfer diwygio, ond bydd yn parhau i gynnal cofrestr o sefydliadu. Fel yn achos llawer o gyrff gwasanaethau cyhoeddus a rheoleiddio, mae AGGCC wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd (gostyngiad o £2.1 miliwn dros dair blynedd i gost weithredu flynyddol o £14.4 miliwn yn 2014/15) wrth weithredu ei model o gofrestru cyffredin, arolygu a gorfodi ar draws ei gwasanaethau gofal plant a gwasanaethau eraill a reoleiddir o dan y Bil. Bydd gweithrediad AGGCC o ddwy system reoleiddio wahanol ar gyfer gofal plant a gofal a chymorth yn y dyfodol yn gofyn i AGGCC newid ei model ar gyfer busnes a chyflenwad, ac ni fydd yn gallu cyrraedd y màs critigol er mwyn cynnig yr un lefel o effeithlonrwydd ym mherfformiad ariannol AGGCC.

¹⁹4,446 o ddarparwyr gofal plant ym mis Mawrth 2014.

14. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am adrannau penodol yn y Bil?

Dim ar hyn o bryd, ond mae AGGCC yn croesawu'r cyfle i drafod ein safbwyntiau yn fwy manwl yn ein tystiolaeth lafar gerbron y Pwyllgor yn hwyrach yn y mis hwn.

Yn gywir



Imelda Richardson

Prif Arolygydd

AGGCC – Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

**Ymateb Cyngor Gofal Cymru i alwad y Pwyllgor Iechyd a Gofal
Cymdeithasol am dystiolaeth fel rhan o'r ymgynghoriad ar
Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)**

Cyffredinol

1. *A ydych yn credu y bydd y Bil, fel y'i drafftwyd, yn cyflawni'r nodau a ddatganwyd (sicrhau llesiant dinasyddion a gwella ansawdd gofal a chymorth yng Nghymru) a'r amcanion a nodwyd yn Adran 3 (paragraff 3.15) o'r Memorandwm Esboniadol? A oes angen deddfwriaeth i gyflawni'r nodau hyn?*
- 1.1 Mae Cyngor Gofal Cymru (y Cyngor Gofal) yn croesawu amcanion bras y deddfwriaeth gyda'i ffocws ar ddiogelu'r cyhoedd drwy ddarparu gwasanaethau wedi'u rheoleiddio o ansawdd uchel a system o reoleiddio'r gweithlu sy'n cefnogi'r gweithlu i ymarfer yn effeithiol a diogel. Mae'r Cyngor Gofal bob amser wedi pwysleisio'r cyfrifoldeb sydd ar ddarparwyr gofal cymdeithasol a'r gweithlu i sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel gan argymhell yr egwyddor hefyd fod gan reoleiddio gyfraniad sylweddol i'w wneud o ran hyrwyddo a chefnogi darpariaeth o ansawdd uchel, yn ogystal â mynd i'r afael â meysydd ymarfer gwael.
- 1.2 O ran rheoleiddio a datblygu'r gweithlu, credwn fod angen deddfwriaeth er mwyn cael pwerau newydd a fydd yn cefnogi'r gweithlu yn y sector ac i gefnogi'r broses o newid y Cyngor Gofal i fod yn Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae llawer o'r deddfwriaeth yn ailddatgan prosesau a wneir gan y Cyngor Gofal ar hyn o bryd mewn perthynas â rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, bydd y deddfwriaeth ychwanegol yn galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflawni ei swyddogaeth gwella gwasanaethau newydd, sydd i'w groesawu gan y bydd yn sicrhau cydlyniant wrth sbarduno gwelliannau ar draws y sector.
2. *A oes unrhyw rwystrau posibl a allai ei gwneud yn anodd rhoi darpariaethau'r Bil ar waith ac, os felly, beth ydynt ac a yw'r Bil yn eu hystyried yn ddigonol?*
- 2.1 Y prif rwystrau i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel yw'r pwysau ehangach ar y sector o ran y cynnydd mewn niferoedd a chymhlethdod anghenion ar adeg o bwysau sylweddol ar adnoddau. Nid yw'r rhain yn rhan o'r cwmpas rheoleiddio. Mae'r deddfwriaeth yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn drwy ddarpariaeth ar gyfer gwell cynllunio a dadansoddi'r farchnad, ffocws ar ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel a chydgyssylltu gweithgareddau gwella yn well er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol y cytunwyd

arnynt. Bydd meithrin cysylltiadau clir â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn allweddol i lwyddiant y ddeddfwriaeth hon, gyda rheoleiddio a gwella a datblygu gwasanaethau'n cael eu cysylltu â'i gilydd yn hytrach na bod yn weithgareddau ar wahân.

3. *A ydych yn credu bod unrhyw broblemau'n ymwneud â chydraddoldeb yn y darpariaethau presennol yn y Bil ar gyfer amddiffyn grwpiau gwahanol sy'n defnyddio gwasanaethau?*
- 3.1 Dylai'r ddeddfwriaeth gefnogi cydraddoldeb yn arbennig i'r grwpiau hynny sy'n dibynnu ar wasanaethau a ddarperir gan y sector gofal cymdeithasol. Rydym yn croesawu'r cyfeiriad clir at ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac at grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.
4. *A ydych yn credu bod unrhyw faterion o bwys wedi'u hepgor o'r Bil neu a oes unrhyw elfennau rydych yn credu y dylid eu cryfhau?*
- 4.1 Bydd y cwestiwn hwn yn cael ei ateb yn ein hatebion isod.
5. *A ydych yn credu y bydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil?*
- 5.1 O ran rheoleiddio gwasanaethau nid ydym yn rhagweld bydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol er y bydd angen monitro effaith gweithredu'r ddeddfwriaeth yn ofalus i sicrhau nad oes canlyniadau negyddol ar gyfer sector sydd rywfaint yn ansefydlog ar hyn o bryd.
- 5.2 O ran rheoleiddio'r gweithlu, credwn y gall y manylion ar wyneb y Bil gyfyngu ar allu yn y dyfodol i ymateb i batrymau gwasanaeth newydd a grwpiau o'r gweithlu y byddai dulliau rheoleiddio eraill yn fwy priodol iddynt o bosibl.

Darpariaethau yn y Bil

6. *Beth yw eich barn am y darpariaethau yn rhan 1 o'r Bil ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol? Er enghraifft, mabwysiadu model rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau, ymgysylltu â'r cyhoedd, a phwerau i gyflwyno system sgorio fel rhan o'r drefn arolygu ac i godi ffioedd.*
- 6.1 Mae'r darpariaethau yn y Bil wedi'u cynllunio i wella tryloywder darpariaeth wedi'i rheoleiddio a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o ddarpariaeth gofal cymdeithasol a'u cyfranogiad ynddo. Bydd gwella gwybodaeth y cyhoedd am y sector gofal yn ganolog i'r datblygiad hwn. Rydym yn ystyried y rhwymedigaeth i gynhyrchu adroddiadau blynyddol yn rhan o hyn, ac felly'n croesawu'r gofyniad hwn. Dylai dulliau o'r fath a weithredir ar y cyd â'r sector arwain at fwy o ddiogelwch i'r cyhoedd, atebolrwydd cyhoeddus, gwell dealltwriaeth o'r sector gofal ymhlith y cyhoedd, a dylai helpu i addysgu a galluogi unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau i wneud penderfyniadau am

eu gofal. Dylai hyn arwain at ddisgwyliadau uwch o'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol drwy gydgyfrifoldeb ehangach am faterion ansawdd a diogelwch y ddarpariaeth.

- 6.2 Efallai y byddai'n briodol cael trefn ffioedd addas ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio. Fodd bynnag, os yw casglu ffioedd yn arwain at gynyddu costau er mwyn adennill cost ffioedd neu os yw'r gost o gasglu ffioedd yn fwy na'r incwm a dderbynnir, efallai fod angen ailystyried defnyddio ffioedd.
7. *Beth yw eich barn am y darpariaethau yn rhan 1 o'r Bil ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol? Er enghraifft, ystyried y canlyniadau a gaiff defnyddwyr gwasanaethau wrth adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol, cynyddu cyfranogiad y cyhoedd, a gosod dyletswydd newydd ar wasanaethau gofal cymdeithasol i baratoi adroddiadau ar y farchnad leol.*
- 7.1 Mae'r cynnig i ganolbwyntio ar ganlyniadau i'w groesawu ar gyfer unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau a'r boblogaeth gyfan. Fodd bynnag, mae'r anhawster wrth ddiffinio a mesur canlyniadau ystyrllon yn ddiamherbol o broblematig ac yn dal heb ei brofi i raddau helaeth. Mae'r gofyniad bod gan wasanaethau statudol ddyletswydd i oruchwylio economi gofal cymdeithasol lleol i'w groesawu fel cam allweddol i gefnogi'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae data cadarn a dibynadwy yn allweddol i hyn. Rydym yn croesawu rôl Gofal Cymdeithasol Cymru yn hyn a'r gwaith sy'n cael ei wneud nawr i gryfhau'r data sydd ar gael a'r bwriad i gael gwybodaeth a thystiolaeth y gellir eu defnyddio i wneud penderfyniadau am y sector.
- 7.2 Weithiau gall iaith y Bil ymddangos yn draddodiadol o gymharu ag iaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Efallai y byddai'n briodol diwygio rhai elfennau ohono felly, er enghraifft, i adlewyrchu'r newid o 'wasanaethau' i 'ddarpariaeth'.
8. *Beth yw eich barn ynghylch y darpariaethau yn rhan 1 o'r Bil ar gyfer datblygu system i oruchwylio'r farchnad yn y sector gofal cymdeithasol? Er enghraifft, asesu cynaliadwyedd ariannol a chorfforaethol darparwyr gwasanaethau a pharatoi adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad yn genedlaethol.*
- 8.1 Fel y datganwyd uchod, mae goruchwylio'r farchnad ar lefel genedlaethol a lleol yn rhywbeth i'w groesawu, fel mae asesu sefydlogrwydd ariannol a chynaliadwyedd darparwyr. Fodd bynnag, efallai y bydd hi'n anodd sicrhau tryloywder o'r fath gan fod y sector mor gymhleth. Dim ond trwy gydweithio'n agos â darparwyr y mae'n bosibl sicrhau gwybodaeth ystyrllon ar lefel darparwyr unigol a chenedlaethol gan gydnabod bod tryloywder yn elfen allweddol o'r sector gofal cymdeithasol.

9. *Beth yw eich barn ynghylch y darpariaethau yn rhan 3 o'r Bil i newid enw a chyfansoddiad Cyngor Gofal Cymru gan roi'r enw Gofal Cymdeithasol Cymru arno ac ehangu ei gylch gwaith?*
- 9.1 Mae'r Cyngor Gofal yn croesawu'r egwyddor o newid cyfansoddiad y Cyngor Gofal i fod yn Gofal Cymdeithasol Cymru gyda chylch gwaith estynedig. O'r cychwyn cyntaf, mae'r Cyngor Gofal wedi gweithredu ar y sail bod cysylltiad cryf rhwng rheoleiddio'r gweithlu a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol gyda'r naill weithgarwch yn cefnogi'r llall. Bydd yr elfennau ychwanegol, sef gwella gwasanaethau, ymchwil a gwybodaeth y cyhoedd yn dod ag ysgogiadau allweddol eraill i'r ymagwedd draws-sectorol, gydgysylltiedig at godi ansawdd y ddarpariaeth. Mae llawer o fanylion y cynnig heb eu penderfynu eto ac mae'n hanfodol sicrhau bod adnoddau yn cyd-fynd yn briodol â'r uchelgeisiau.
- 9.2 Mae'r Cyngor Gofal a llawer o'r rhanddeiliaid yn gofidio ein bod yn colli ein brand sy'n adnabyddus ac yn cael ei barchu yn y sector. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Gofal yn edrych ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill i ddatblygu'r cynigion ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru hyd eu rhoi ar waith o 2017 ymlaen.
10. *Beth yw eich barn ynglŷn â'r darpariaethau yn rhannau 4-8 o'r Bil ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu? Er enghraifft, y cynigion i beidio ag ehangu'r broses gofrestru i gynnwys categorïau newydd o staff, i gael gwared ar gofrestru gwirfoddol ac i gyflwyno gorchmynion gwahardd.*
- 10.1 Mae'r Cyngor Gofal yn falch fod y Bil yn darparu pwerau i ymestyn rheoleiddio i grwpiau eraill o weithwyr gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid ydym yn siŵr o hyd a allai lefel y manylion am brosesau addasrwydd i ymarfer ar wyneb y Bil gyfyngu ar ystyriaeth bellach o ddulliau eraill o reoleiddio'r grwpiau hyn o weithwyr.
- 10.2 Rydym yn nodi bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyfeirio at gostau ariannol fel y prif reswm dros beidio ag ymestyn cofrestru gorfodol. Felly, rydym yn awyddus i rannu'r gwaith a gwblhawyd gennym ar ddulliau eraill posibl o reoleiddio'r gweithlu sydd heb ei reoleiddio a allai ddarparu atebion economaidd ac ymarferol eraill. Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y *Papur Gwyn ar Ddyfodol Rheoleiddio ac Arolygu Gofal a Chymorth yng Nghymru*¹, bu i ni gynnig model trwyddedu o reoleiddio'r gweithlu galwedigaethol. Mae gan y system lawer o fanteision a gallai helpu i wireddu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.
- 10.3 Nodwedd allweddol y model hwn yw ei ffocws ar gefnogi gweithwyr gofal i ymarfer yn ddiogel ac effeithiol drwy ddarparu arweiniad a hyfforddiant achrededig, gan fynd i'r afael ag ymarfer gwael neu beryglus ar yr un pryd drwy ddileu'r gweithwyr hynny o'r gweithlu. Y cyflogwr yn bennaf sy'n gyfrifol am gamau disgyblu ac addasrwydd i ymarfer yn y lle cyntaf ac mae'n

¹ Llywodraeth Cymru, Medi 2013

hysbysu'r rheoleiddiwr am y canlyniad. Yna, gall y rheoleiddiwr ddileu trwydded y gweithiwr os nad yw ei waith yn bodloni'r safonau. Rydym yn amcangyfrif y dylai ffi flynyddol o oddeutu £25 y pen y gellid ei ddiwynnu yn erbyn treth, dalu costau'r system hon ar gyfer y rheoleiddiwr. Mae mwy o wybodaeth am y model yn Atodiad 1.

- 10.4 Gofynnwn y dylid ystyried yn briodol caniatáu digon o hyblygrwydd mewn perthynas â'r darpariaethau addasrwydd i ymarfer yn y Bil er mwyn i'r Gweinidog, drwy Reoliadau, allu ymestyn y trefniadau rheoleiddio i grwpiau eraill o weithwyr trwy fodel rheoleiddio amgen, ar adeg lle byddai hynny'n briodol.
- 10.5 Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil dywedodd y Cyngor Gofal, fel mwyafrif llethol yr ymatebwyr eraill, mai prin yw manteision cadarnhaol gorchmynion gwahardd neu gofrestri negyddol yn cael fawr o fantais gadarnhaol, ond bod iddynt lawer o elfennau negyddol. Er enghraifft mi fyddai'n cyflwyno costau sylweddol heb unrhyw incwm o ffioedd. Yn ogystal, bydd y ffocws ar ymarfer negyddol heb unrhyw fanteision fel cefnogi darpariaeth o ansawdd uchel a chydabod ymarferwyr o safon uchel. Mae barn y sector ar gofrestr negyddol wedi'i chydabod yn y Memorandwm Esboniadol hefyd². Nid ydym felly yn credu y byddai cofrestr negyddol yn darparu dull amgen hyfyw i Gofal Cymdeithasol Cymru yn hytrach na chofrestru gorfodol llawn.
- 10.6 Mae'r Cyngor Gofal yn cytuno nad yw dibynnu ar gofrestru gwirfoddol yn briodol, er bod adroddiadau gan weithwyr gofal a chyflogwyr sydd wedi cefnogi eu staff gofal i gofrestru yn dangos bod cofrestru gwirfoddol wedi darparu dull o gydnabod cyfraniad y gweithlu gofal. Fel y nodwyd uchod, credwn fod modelau eraill o reoleiddio trwyddedu ar gael i ddisodli'r dulliau gwirfoddol.
11. *Beth yw eich barn ar y darpariaethau yn rhan 9 o'r Bil i gyrrff rheoleiddio gydweithredu a chydweithio?*
- 11.1 Rydym yn croesawu'r cynigion yn y Bil sy'n ymwneud â chydweithredu a chydweithio a chredwn y byddant yn gwella'r gwaith cydweithredol cyfredol a wneir rhwng y Cyngor Gofal ac AGGCC.

Pwerau dirprwyedig

12. *Yn eich barn chi, a yw'r Bil yn cynnig cydbwysedd rhesymol rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn y bydd is-ddeddfwriaeth a chanllawiau'n ymdrin â nhw?*
- 12.1 Er bod mwyafrif y Bil yn darparu lefel briodol o fanylion ar gyfer deddfwriaeth o'r fath rydym yn pryderu, fel y nodwyd yn ein hateb i gwestiwn 10 uchod, na lwyddwyd i sicrhau'r cydbwysedd hwn yn yr adrannau ar addasrwydd i

² Gweler tudalen 71

ymarfer, ac y gallai hyn gyfyngu ar allu Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu ymhellach yn y maes hwn ac i ystyried modelau rheoleiddio eraill yn y dyfodol.

- 12.2 Rydym yn ymwybodol bod llawer iawn o'r manylion yn deillio o'r ddeddfwriaeth ddrafft a baratowyd yn sgil canlyniad adolygiad Comisiwn y Gyfraith ar reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn Lloegr³, nad yw wedi dod yn gyfraith eto. Gallai hyn olygu na fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gallu ymateb i newidiadau i ddulliau yn y DU o reoleiddio'r gweithlu, yn arbennig yn y sector gofal cymdeithasol, ac y gallai felly lesteirio cydweithio rhwng cyrff y DU yn y dyfodol.

Goblygiadau ariannol

13. *Beth yw eich barn chi am oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn rhannau 6 a 7 o'r Memorandwm Esboniadol?*
- 13.1 Hoffai'r Cyngor Gofal wneud y pwyntiau canlynol ynglŷn â'r costau a amlinellwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
- 13.2 Wrth edrych ar y costau o fodolau rheoleiddio'r gweithlu, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddio ond yn ystyried y model cofrestru gorfodol presennol, gyda ffioedd uwch. Cyflwynodd y Cyngor Gofal costau ar gyfer model trwyddedu o reoleiddio'r gweithlu galwedigaethol, y cyfeirir atynt uchod (10.2). Ystyriwn hwn i fod yn fwy priodol ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol sydd heb ei reoleiddio nawr yn y dyfodol. Mae'n nodadwy nad oes Asesiad Effaith Rheoleiddio wedi ei wneud ar y costau o gyflwyno'r ddarpariaeth gorchmynion gwahardd a gynhwysir yn y Bil.
- 13.3 Mae'r asesiad o gostau rheoleiddio hyfforddiant gweithwyr gofal cymdeithasol yn seiliedig ar gymhwyso'r model a ddefnyddiwyd ar gyfer hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol. Mae natur hyfforddiant gweithwyr gofal cymdeithasol yn wahanol iawn gyda'r pwyslais yn awr ar ddysgu seiliedig ar waith. Hefyd, mae'r nifer o staff yn llawer mwy a gallai nifer y 'cyrsiau' sydd angen eu cymeradwyo fod yn llawer uwch. Mae'r Cyngor Gofal yn credu y bydd angen gwneud penderfyniadau ar fodel rheoleiddio hyfforddiant gweithwyr gofal cymdeithasol ar sail y defnydd mwyaf effeithiol o bwerau rheoleiddio yng nghyd-destun y strwythurau sicrhau ansawdd sy'n bodoli ar gyfer hyfforddiant gweithwyr gofal a'r adnoddau sydd ar gael i'w weithredu.
- 13.4 Mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru gylch gwaith eang, ac er ei fod yn darparu cyfle i sicrhau mwy o gydlyniant a chyfeiriad strategol, bydd ei allu i gyflawni hyn yn dibynnu ar ymagwedd gynhwysfawr wedi'i chynllunio gyda chymorth ar draws sectorau. Er bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi ystod o ffrydiau ariannu cyfredol, prin yw'r dystiolaeth ynglŷn â'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi'r holl gylch gwaith arfaethedig a'r costau pontio. Mae'r Cyngor Gofal yn credu bod angen cynllunio'n ofalus iawn ar frys i sicrhau bod

³ Regulation of Health Care Professionals and Regulation of Social Care Professionals in England, Comisiwn y Gyfraith, Ebrill 2014

blaenoriaethau'n cael eu nodi cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod y rhaglen fwyaf effeithiol ar gael i'r sector, a bod modd cyflawni'r rhaglen hon o fewn yr adnoddau a nodwyd.

Sylwadau eraill

14. *A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu cynnig ynglŷn ag adrannau penodol o'r Bil?*
- 14.1 Mae'r Cyngor Gofal yn croesawu'r Bil a'r cyfle pwysig y mae'n cyflwyno i gefnogi datblygiad y sector gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'n cynnig y posibilrwydd i Gymru wneud rhywbeth newydd a gwahanol fydd yn codi dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r sector gofal cymdeithasol. Bydd yn sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda i ymateb i'r newidiadau a'r heriau sylweddol y bydd y sector gofal cymdeithasol yn eu hwynebu yn y degawd sydd i ddod.

Sut y gallai trwyddedu ehangu trefniadau rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol mewn ffordd gost-effeithiol, drylwyr a llwyddiannus

Crynodeb Gweithredol

Rydym yn cynnig model rheoleiddio newydd i gefnogi'r gwaith o broffesiynoli'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn codi safonau ymarfer, cefnogi gweithwyr i ymarfer yn ddiogel a diogelu rhai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn well. Rydym yn cynnig system drwyddedu sydd wedi llwyddo gyda grwpiau eraill o weithwyr medrus.

Manteision

- Mae trwyddedu yn darparu'r canlynol i weithwyr:
 - ~ mynediad i hyfforddiant achrededig i ennill cymhwyster gofynnol;
 - ~ cymorth, cyngor a gwybodaeth i allu cynnal ymarfer o safon.
- Rhagolygon gyrfa a delwedd well i'r gweithlu.
- Data am y gweithlu i gyflogwyr, Llywodraeth Cymru ac eraill.
- Mwy o sicrwydd a hyder i'r cyhoedd yn sgil mesurau diogelwch cryfach ac ansawdd y gweithlu.
- Bod yn gost-effeithiol a chymesur.
- Model rheoleiddio llwyddiannus, a ddefnyddir yn effeithiol gan y Gofrestr Diogelwch Nwy ac eraill dros flynyddoedd lawer.

Mathau o weithwyr y gellid eu trwyddedu

- Gweithwyr cartrefi gofal oedolion.
- Gweithwyr gofal cartref.
- Cynorthwywyr personol.

Elfennau trwyddedu allweddol

- Trwyddedu i gynnwys:
 - ~ gofyniad i ennill cymhwyster gorfodol – naill ai adeg y cais cychwynnol neu wrth adnewyddu bob tair blynedd;
 - ~ cytundeb i gydymffurfio â'r Côt Ymarfer;
 - ~ cylch trwyddedu tair blynedd;
 - ~ angen tystiolaeth o hyfforddiant a dysgu parhaus wrth adnewyddu.
- Camau disgyblu i gynnwys:
 - ~ cyflogwr yn ymchwilio i achos honedig o dorri'r Côt Ymarfer a hysbysu rheoleiddiwr y gweithlu am ei benderfyniad;
 - ~ penderfyniad y swyddog i ddileu neu gadw trwydded yr unigolyn;
 - ~ prosesau apelio mewnol ac allanol.
- Rôl y cyflogwr i gynnwys:
 - ~ darparu gwybodaeth reolaidd am y gweithwyr i reoleiddiwr y gweithlu;
 - ~ cefnogi'r broses o ennill cymwysterau a dysgu parhaus;

~ cynnal prosesau disgyblu ac atgyfeirio gweithwyr at reoleiddiwr y gweithlu.

Costau

- Ffi gofrestru flynyddol amcangyfrifedig o £25-£30 y flwyddyn, ar gyfer pob unigolyn cofrestredig (gostwng i £20-£24 ar ôl gostyngiad yn y dreth).
- Cynnydd posibl mewn costau hyfforddi.
- Effaith bosibl ar lefelau cyflogau o ganlyniad i broffesiynoli.

Sut y gallai trwyddedu ehangu trefniadau rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol mewn ffordd gost-effeithiol, drylwyr a llwyddiannus

1. Cyflwyniad: y drafodaeth ar ehangu trefniadau rheoleiddio

- 1.1 Mae Cyngor Gofal Cymru (y Cyngor Gofal) wedi galw ers cryn amser am ffordd newydd o reoleiddio rhannau o'r gweithlu gofal. Yn ei *Bapur Gwyn ar Ddyfodol Rheoleiddio ac Arolygu Gofal a Chymorth yng Nghymru*⁴, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi 'rhoi blaenoriaeth i broffesiynoli'r gweithlu gofal a chymorth'. Mae'r Cyngor Gofal yn ystyried mai rhan o'r agenda broffesiynoli hon yw ymestyn ei bwerau i godi safonau ymarfer i grwpiau eraill o'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn dywedwyd y canlynol:

"Felly, nid a ddylid rheoleiddio'r gweithlu ehangach yw'r mater i'w ystyried, ond yn hytrach bod yn barod i archwilio gwahanol fodelau rheoleiddio ar gyfer sicrwydd cyhoeddus a fyddai hefyd yn cefnogi'r ymgais i gael gweithlu cynaliadwy o safon uchel sy'n cael ei werthfawrogi".

- 1.2 Er mwyn diogelu unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau ac i godi safonau yn y gweithlu, credwn y dylid ymestyn pwerau'r Cyngor Gofal i gynnwys gweithwyr y mae cofrestru'n ddewisol iddynt ar hyn o bryd (gweler 2.3). Fodd bynnag, derbynnir hefyd na fyddai modd cynnal y drefn reoleiddio gyfredol, fel yr amlinellir yn 2.4 isod, pe byddai'n cael ei hymestyn, oherwydd y byddai'n rhy gostus. Cydnabyddir hefyd bod angen math gwahanol o fodel gwella'r gweithlu ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol o gymharu â'r hyn sy'n bodoli ar gyfer rheolwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol, er mwyn adlewyrchu natur a chyflogau eu swyddi'n well.
- 1.3 Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar fodel trwyddedu newydd ar gyfer codi safonau; y ffactorau allweddol sy'n sbarduno'r model hwn; modelau cymharol o sectorau eraill; model newydd arfaethedig ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol a chostau cyffredinol model newydd. Mae'n datgan y canlyniadau allweddol a fyddai'n fuddiol i randdeiliaid amrywiol yn cynnwys y gweithwyr eu hunain, unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau a chyflogwyr.

2. Ymarfer cyfredol

- 2.1 Y Cyngor Gofal sydd wedi bod yn rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru ers ei sefydlu yn 2001. Mae ei bwerau rheoleiddio yn deillio o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Rhoddwyd y rhain ar waith yn ymarferol drwy Reoliadau a Rheolau ar gyfer cofrestru a chamau disgyblu. Mae'r Cyngor yn cynnal Cofrestr o rai mathau o weithwyr gofal cymdeithasol. Gall ddileu pobl o'r Gofrestr drwy ei brosesau ymchwilio a gwrandawiadau pan fydd gweithwyr yn cael eu canfod yn euog o achos lle gwelir bod ymarfer y gweithwyr hyn yn ddiffygiol a'u bod wedi methu cynnal safonau y Côt Ymarfer ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol (y Côt Ymarfer). Ar ôl cael eu tynnu oddi ar y Gofrestr, ni all y bobl hyn weithio fel gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig.

⁴ Llywodraeth Cymru, Medi 2013

2.2 Mae'n rhaid i'r grwpiau canlynol o weithwyr gofrestru ar hyn o bryd (nodir y dyddiad y daeth y gofynion cofrestru i rym):

- Myfyrwyr gwaith cymdeithasol (o 2004);
- Gweithwyr cymdeithasol (o 2005);
- Rheolwyr gofal preswyl plant (o 2007);
- Gweithwyr gofal preswyl plant (o 2008);
- Rheolwyr cartrefi gofal oedolion (o 2011);
- Rheolwyr gofal cartref (o 2013).

Gyda'i gilydd mae'r grwpiau hyn yn 16 y cant o'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae 84 y cant o weddill y gweithlu heb eu rheoleiddio. Maent yn cynnwys:

- Gweithwyr cartrefi gofal oedolion;
- Gweithwyr gofal cartref;
- Cynorthwywyr personol.

2.3 Ers 2005, mae cofrestru wedi bod yn wirfoddol i weithwyr cartrefi gofal oedolion a gweithwyr gofal cartref. Fodd bynnag, bydd Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn cau'r gofrestr wirfoddol.

2.4 Mae'r un broses reoleiddio'n berthnasol i bob grŵp ar y gofrestr orfodol. Mae hyn yn cynnwys:

Cofrestru

Wrth wneud cais i gofrestru mae'n rhaid i ymgeisydd ddangos cymeriad da, ymddygiad da ac addasrwydd i ymarfer; tystiolaeth o'r cymhwyster gofynnol (wrth ymgeisio neu adnewyddu); cyflwyno'r ffi briodol a chytuno i gydymffurfio â'r Côd Ymarfer. Mae'n rhaid i'r cyflogwr gymeradwyo'r cais.

Bydd angen adnewyddu cofrestriad bob tair blynedd. Mae'n rhaid i unigolyn cofrestredig ddangos tystiolaeth o'r un elfennau ag uchod a'i fod wedi cwblhau 90 awr neu 15 diwrnod o hyfforddiant ôl-gofrestru a dysgu. Ac eithrio gweithwyr cymdeithasol, mae'n rhaid i'r cyflogwr gymeradwyo'r cais.

Os yw'r Cyngor Gofal yn penderfynu peidio derbyn y cais i gofrestru neu adnewyddu, bydd yr achos yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Cofrestru.

Ymchwiliad a Gwrandawiadau

Pan dderbynnir honiad bod unigolyn cofrestredig wedi methu cynnal safonau'r Côd Ymarfer cynhelir ymchwiliad. Mae'r Cyngor Gofal yn gallu cynnal ymchwiliadau o'r fath fel y mae'n gweld yn angenrheidiol yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos. Yn dilyn hyn efallai y bydd yr achos yn cael ei gau heb weithredu pellach, neu y bydd yr unigolyn cofrestredig yn cael cynnig y gallu i dderbyn ymgymeriad (amod/au ar ei gofrestriad), neu efallai y bydd yn cael ei ddileu o'r Gofrestr drwy gytundeb â swyddogion, neu y bydd yr achos yn cael ei atgyfeirio i'r broses wrandawiadau.

Mewn gwrandawriad gall unigolyn cofrestredig ymddangos gerbron pwyllgor cychwynnol, lle y gall gael ei wahardd dros dro o'r Gofrestr neu dderbyn amodau dros dro ar ei gofrestriad wrth i ymchwiliad gael ei gynnal. Mae gan bwyllgor gwrandawriad terfynol y gallu i geryddu, gwahardd, gosod amodau ar gofrestriad neu ddileu unigolyn cofrestredig o'r Gofrestr.

3. Ffactorau allweddol sy'n sbarduno model trwyddedu newydd

- 3.1 Un o'r ffactorau allweddol sy'n sbarduno model trwyddedu newydd yw'r dymuniad i allu diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn well. Amlygwyd yr angen hwn yn glir ar y cyfryngau, er enghraifft drwy raglen Panorama y BBC, *Undercover Care: The Abused Exposed* a oedd yn dangos henoed yn cael eu cam-drin mewn cartrefi gofal yn Lloegr. Mae ymchwiliadau eraill gam-drin a gynhaliwyd yn y gorffennol yn cynnwys ymchwiliad yr heddlu i gamdriniaeth mewn cartrefi gofal i oedolion yng Ngwent (Ymchwiliad Jasmine) a cham-drin pobl ag anabledau dysgu yn Ysbyty Winterbourne View yn Lloegr.
